**EITEM RHAGLEN RHIF 8 a 9**

**PWYLLGOR**
**CYNLLUNIO**
**9 HYDREF 2019**

**ADRODDIADAU ATODOL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**AIL YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO FFERM MINDALE, GALLT MELYD**

**CEISIADAU 43/2018/0750 A 43/2018/0751**

**43/2018/0750**
**Dymchwel annedd bresennol a'r tai allan, adeiladu 133 o anheddau, adeiladu ffyrdd ystâd mewnol, carthffosydd, systemau draenio trefol cynaliadwy a mannau agored, gwaith tirlunio strategol a chaled/meddal, mewn perthynas â chais 43/2018/0751 am ffordd gyswllt newydd i Ffordd Talargoch (A547)**

**Tir i'r gogledd, gorllewin a'r dwyrain o Fferm Mindale Farm, Ffordd Hendre, Gallt Melyd, Prestatyn**

**43/2018/0751**
**Adeiladu ffordd newydd (tua 400m o hyd) o Ffordd Talargoch (A547) i dir ar Fferm Mindale Farm, mewn perthynas â chais 43/2018/0750 ar gyfer datblygiad preswyl ar ddyraniad tir tai**

**Tir i'r de-orllewin o Ffordd Tŷ Newydd oddi ar Ffordd Talargoch (A547), Gallt Melyd, Prestatyn**

1. **CYFLWYNIAD – PWRPAS YR ADRODDIADAU**

   1.1. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhagflaenu dau adroddiad 'Atodol' sy'n gofyn am benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar y ddau gais cynllunio y manylir arnynt uchod, a dderbyniodd ystyriaeth y Pwyllgor ar 4 Medi, 2019. Penderfynodd Aelodau i wrthod, yn wahanol i argymhelliad y Swyddog ar y ddau gais.

   1.2. Mae'r ceisiadau yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, yn unol â Rhan 2, Adran 2.1.9 b) y Cynllun Dirprwyo presennol, oherwydd ystyrir bod seiliau penderfyniad y pwyllgor i wrthod yn peri risg sylweddol o gostau yn cael eu dyfarnu yn erbyn y Cyngor mewn unrhyw apêl neu her gyfreithiol sy'n dilyn.

   1.3. Er gwybodaeth, mae Rhan 2 y Cynllun Dirprwyo ynghlwm i'r eitem gyflwyniadol hon. Mae'n nodi'r amgylchiadau pan gall ceisiadau eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad ffurfiol.

   1.4. Mae'r adroddiadau ar wahân, sydd wedi cael eu paratoi fel Eitemau 8 a 9 yn darparu'r wybodaeth gefndir berthnasol i Aelodau, yn ogystal â'r rhesymau pan mae Swyddogion yn ceisio ail ystyriaeth o ran y ceisiadau.